

# Yr Hyrwyddwr Hygyrchedd

# Mynegiad o Ddiddordeb

Supported using public funding by
ARTS COUNCIL ENGLAND

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys

Y Cynllun Hygyrchedd ..... 1
Beth wnaiff y cynllun? ..... 2
Yr Hyrwyddwr Hygyrchedd ..... 3
Beth fydd gwaith yr Hyrwyddwr? ..... 3
Pa sgiliau ac arbenigedd sydd eu hangen? ..... 4
Sut i ymgeisio ..... 5
Asesiad ..... 5
Cyfweliadau ..... 5
Cwestiynau? ..... 5

Clawr: Porthor y Nos; Llun: Abigail Savage Lewis

## Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, sain ac Arwyddeg. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Recriwtio Cyfle Cyfartal a chroesawn geisiadau gan bawb yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fydd eich dewis iaith yn arwain at unrhyw oedi wrth ymateb.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR



Cardiau Post i'r Dyfodol, Oriel Glynn Vivian

## Y Cynllun Hygyrchedd

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, yr Alban Greadigol, Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, Sefydliad Ffilm Prydain a Chyngor Celfyddydau Lloegr yn bwriadu datblygu cynllun hygyrchedd ledled Prydain i gynulleidfaoedd celfyddydol a diwylliannol sy'n Fyddar, anabl a niwroamrywiol. Mae hyn yn cynnwys ystod o bethau gan gynnwys sioeau theatr, arddangosfeydd a ffilmiau.

Yn ôl astudiaeth ddichonoldeb 2020, roedd cefnogaeth fawr gan bobl Fyddar ac anabl i'r syniad a chan sefydliadau celfyddydol a diwylliannol.

Nawr cynhaliwn ymchwil bellach drwy ymgynghori ag ystod eang o bobl sydd ag anghenion hygyrchedd. Bydd yn ystyried effaith y pandemig ac ystyried yn fanylach ofynion pobl. Rydym hefyd wedi comisiynu astudiaeth ddichonoldeb dechnegol i ymchwilio i ofynion y system a'r defnyddwyr.

> Mae'n brosiect cynhwysol dan arweiniad pobl anabl. Mae'n adlewyrchu anghenion y grwpiau dan sylw.



Arddangosfeydd yr Haf, Glynn Vivian
Llun: Polly Thomas

## Beth wnaiff y cynllun?

Nid oes dim yn bendant eto. Rydym o hyd yn gwneud yr ymchwil ond adeilada ar y gwaith ymchwil flaenorol a'r gwersi a ddysgwyd o'r mentrau presennol a'r cerdyn Hynt yng Nghymru.

Cyflawna ein hamcanion i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Ni Chawn ein Dileu a'r 7 egwyddor gynhwysol – Gweithio'n ddiogel drwy'r coronafeirws: 7 egwyddor gynhwysol i sefydliadau celfyddydol a diwylliannol.

Dyma rai o'r posibiliadau:

- Cynllun aelodaeth hygyrchedd ar-lein a gwefan, lle gall aelodau ddod o hyd i wybodaeth am berfformiadau a lleoliadau hygyrch a chofrestru eu hanghenion.
- Y gallu i weithio gyda'r systemau mawr i archebu tocynnau ar-lein a rhoi gofynion hygyrchedd aelodau o'r cynllun yn awtomatig i'r sefydliadau.
- Data a dadansoddiadau i'r sector am dueddiadau cynulleidfaoedd Byddar, anabl a niwroamrywiol i'r sector allu tyfu'r cynulleidfaoedd yma a gwella'r ddarpariaeth.
- Hwb hyfforddi a chymorth i sefydliadau gydag adnoddau am sut i ddatblygu'r arfer gorau o ran rhaglenni, digwyddiadau a lleoedd hygyrch.
- Rhaglen achredu i leoliadau sy'n cymryd rhan.

Bydd Grŵp Ymgynghorol y Cynllun yn cefnogi'r datblygiad gyda phrofiad personol ac arbenigedd i lywio'r penderfyniadau a chynnig safbwynt Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

## Yr Hyrwyddwr Hygyrchedd

Chwiliwn am rywun i ddatblygu'r cynllun. Os ydych yn angerddol am hygyrchedd a chynhwysiant a chyda phrofiad o'r sector celfyddydol a diwylliannol a phrofiad personol o'r rhwystrau i gynulleidfaoedd anabl mewn digwyddiadau â thocynnau, hoffem glywed oddi wrthych.

## Beth fydd gwaith yr Hyrwyddwr?

Defnyddiwch eich gwybodaeth, eich arbenigedd a'ch profiad personol i fod yn eiriolwr ac yn gyfaill beirniadol i'r bartneriaeth wrth inni ddatblygu'r cynllun.

Chi fydd yn llywio'r swydd a'i gwaith. Ni fanylwn felly ar yr hyn sydd angen ei wneud. Ond byddwch yn ein cynorthwyo gyda'r canlynol:

- Rhoi trosolwg ar y datblygiad i gyrraedd ein nod.
- Bod ar y Grŵp Ymgynghorol ac, o bosib, bod yn Gadeirydd.
- Cwestiynu a herio ein cynigion, ein prosesau a'n cynlluniau i'n cadw at y weledigaeth.
- Eiriol ac ymgyrchu dros y cynllun gan godi'i broffil gyda chyrff cenedlaethol a chefnogwyr a phartneriaid gan gynnwys Gweinidogion Prydain a'i gwledydd.
- Gyda'r Grŵp Ymgynghorol sicrhau cysondeb ein gwerthoedd gan lynu wrth y model cymdeithasol o anabledd a pharchu cyd-destun celfyddydol a diwylliannol pob un o'n pedair gwlad.
- Gwneud cyflwyniadau achlysurol i fyrddau/pwyllgorau ein sefydliadau partner.


Hedfan, Symposiwm Mynediad a Chynhwysiant

## Pa sgiliau ac arbenigedd sydd eu hangen?

Y cymhwyster pwysicaf yw eich gallu i ddefnyddio eich profiad personol i fod yn eiriolwr a chyfaill beirniadol a'r gallu i ymgysylltu ag eraill ar bob lefel.

Byddwch yn unigolyn eithriadol – angerddol am gydraddoldeb a hawliau dynol, brwdfrydig dros wneud y celfyddydau'n decach a mwy amrywiol a chynrychioliadol.

I hyrwyddo'r cynllun mor eang â phosibl, rhaid ichi feddu ar sgiliau eiriol cryf, gwybod sut i ymgysylltu â rhanddeiliaid lefel uchel a bod mewn cysylltiad ystyrlon â rhwydweithiau priodol.

Deallwch y sector celfyddydol a diwylliannol a gallwch ddangos eich gwybodaeth am wahanol gyd-destunau'r gwledydd. Byddwch yn huawdl gan fedru dwyn perswâd ar bobl a gallwch ddyfeisio ffyrdd newydd a dychmygus o greu atebion ymarferol.

## Oes gennych ddiddordeb?

Gallwch weithio o unrhyw le ym Mhrydain. Cyngor Celfyddydau Cymru fydd yn rheoli'r swydd ar ran y bartneriaeth. Cyngor Celfyddydau Lloegr fydd yn ei ariannu.

Rhagwelwn y gwneir y gwaith drwy gontract am wasanaethau llawrydd ond rydym yn hyblyg o ran hynny.

Cytunir ar y dull terfynol o wneud y gwaith (a'r contract a thelerau ac amodau) rhwng yr ymgeisydd llwyddiannus a'r sefydliadau partner.

Ffi'r gwaith fydd £24,000 yn seiliedig ar 4 diwrnod o waith bob mis. Talwn dreuliau rhesymol am deithio a chynhaliaeth.

Contract tymor penodol yw hwn am gyfnod cychwynnol o 12 mis.

Nid yw canlyniad terfynol y cam archwilio'n hysbys. Mae posibiliad serch hynny, gan ddibynnu ar gytundeb y partneriaid, o estyn y contract ymhellach.

## Sut i ymgeisio

Hoffem i'r broses ddethol fod mor deg a chyfartal â phosibl. Gwnawn addasiadau rhesymol i sicrhau hyn. Cysylltwch os hoffech gael unrhyw addasiadau neu gefnogaeth ychwanegol ichi fynegi eich diddordeb yn y swydd. Gyda'n gilydd y down o hyd i'r sefyllfa sy'n gweithio orau ichi. Os hoffech gael gwybodaeth mewn fformatau eraill neu os hoffech gymorth i ymgeisio, e-bostiwch ni (cyfeiriad isod).

Ni ofynnwn ichi lenwi ffurflen gais ffurfiol. Gofynnwn ichi gyflwyno llythyr (eich Mynegiad o Ddiddordeb) sy'n egluro pam yr hoffech gael eich ystyried am y swydd. Dylech ateb y cwestiynau:

- Beth yw'ch diddordeb yn y swydd?
- Beth yw'r wybodaeth benodol a'r profiad personol sydd gennych? (Cofiwch sôn am y sgiliau a'r arbenigedd uchod)
- Sut mae cyflawni'r gwaith?
- Gall eich mynegiad o ddiddordeb fod ar ffurf lythyr ysgrifenedig neu fideo. Anfonwch eich mynegiad at Janine Reynolds, Cydlynydd Tîm/Cynorthwyydd Personol: janine.reynolds@celf.cymru
- Croesawn geisiadau yn y Gymraeg, yr Arwyddeg neu'r Saesneg. Ni fydd yr iaith yn effeithio ar yr asesiad o'ch cais.

5pm ddydd Gwener 21 Hydref 2022 yw'r dyddiad cau inni gael eich mynegiad a chofiwch roi eich manylion cyswllt llawn.

## Asesiad

Aseswn y mynegiadau ar sail y sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen am y swydd. Cyfwelwn â'r rhai sydd wedi dangos orau eu tystiolaeth o'r rhain.

## Cyfweliadau

Cynhelir y rhain ar-lein ac ar y panel bydd cynrychiolwyr o'n sefydliadau partner.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, gallwn drafod wedyn unrhyw gymorth ychwanegol yr hoffech ei gael.

**Ar 2 neu 3 Tachwedd 2022 y bydd y cyfweliadau.**

## Cwestiynau?

Cysylltwch â Janine Reynolds: janine.reynolds@celf.cymru a fydd yn ymateb yn brydlon.